"Gadewch i'r plant ddod ataf fi; peidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn. Yn wir, rwy'n dweud wrthych, pwy bynnag nad yw'n derbyn teyrnas Dduw yn null plentyn, nid â byth i mewn iddi."
(Marc 10:14-15)

Dyma eiriau y mae llawer ohonom wedi eu dysgu fel plant yn yr Ysgol Sul, ac mae nhw'n eiriau tyner a chysurlon gan ein Gwaredwr addfwyn.

Rhieni

Roedd rhieni neu berthnasau agos yn dod â phlant bach at Iesu er mwyn iddo'u bendithio. Ystyr hynny oedd ei fod yn gosod ei law arnynt ac yn gweddïo bendith y Tad nefol arnynt. Yn adnod 16 fe ddywedir ei fod yn eu cymryd i'w freichiau. Mae'r gair Groeg yn golygu *'plygodd yn ei freichiau'* neu *'lapiodd yn ei freichiau'* sydd yn dangos tynerwch Iesu at y plant.

Disgyblion Iesu

Roedd y disgyblion yn gweld y rhieni fel niwsans i Iesu. Roedd yn brysur iawn gyda llawer o alwadau 'pwysicach' na rhoi ei law ar blant bach. Roedd yn dysgu'r dyrfa, yn cyflawni gwyrthiau a rhyfeddodau, yn teithio hwnt ac yma; a beth fyddai'r plant bach yma'n gwybod am deyrnas Dduw, beth bynnag?

Iesu

Dyma un enghraifft o'r Arglwydd Iesu yn dangos digofaint. Pan mae'n gweld beth mae'r disgyblion yn ei wneud mae'n mynd yn ddig. Mae hynny'n dweud wrthym fod lle i blant yn y deyrnas, felly, ac yn wir mae ei eiriau yn cadarnhau hynny.

Rhwystr?

Pwy oedd y disgyblion i benderfynu pwy allai ddod yn agos at Iesu? Pwy oedden nhw i ddweud nad oedd rhan gan blant yn y deyrnas? A'r cwestiwn nesaf yw: pwy ydym ni i fod yn rhwystr i blant?

Felly, dylem gyflwyno plant i'r Arglwydd mor fuan â phosib ac mor gyson â phosib. Mae'n wir bod rhai pobl yn trin 'bedydd' plentyn mewn ffordd ofergoelus, arwynebol a rhagrithiol, ond ni ddylai hynny ein hatal rhag bod o ddifrif er lles ein plant.

Dylem gyflwyno'n plant i'r Arglwydd mewn gweddi o'u geni ymlaen. Dylem hefyd gyflwyno'r Arglwydd i'n plant mor fuan ac mor gyson â phosib hefyd. Dydy plentyn byth yn rhy ifanc i glywed Gair Duw ar yr aelwyd nac mewn oedfa chwaith.

Ydy hi'n bosib eich bod chi yn rhwystro plentyn rhag dod at yr Arglwydd trwy esgeuluso gweddïo drosto a rhoi iddo'r cyfle i glywed Efengyl Iesu Grist? Gall hyn fod yn wir am rieni neu famgu a thadcu, neu berthynas arall.

Agwedd plentyn

Yna mae'r Arglwydd yn dweud fod agwedd plentyn yn hanfodol os ydym am fynd i mewn i deyrnas Dduw. Os ydym am adnabod Duw fel ein Harglwydd a'n Brenin a dod o dan ofal ei lywodraeth, rhaid dod ato yn null plentyn. Beth mae hyn yn ei feddwl?

Credu Duw

Mae plentyn yn tueddu i gredu beth mae person yn ei ddweud wrtho. Dywed Paul: **"Credodd Abraham i Dduw"** (Rhuf.4.3 BWM) sydd yn golygu ei fod yn credu Duw. Pan alwodd Duw Abraham i adael ei wlad am wlad newydd a dieithr, fe aeth. Credodd y byddai ei ddisgynyddion mor niferus â'r sêr, a chafodd gyfathrach â'i wraig gan ddisgwyl plentyn yr addewid, sef Isaac.

Ymddiried yn Nuw

Mae plentyn yn tueddu i dderbyn gair er na fedran nhw ddeall popeth. Mae hyn eto'n wir am Abraham. Gofynnodd Duw iddo offrymu Isaac ym Moreia. Aeth Abraham a'i fab i fyny'r mynydd gyda choed yr offrwm yn barod. Gofynnodd Isaac ble'r oedd y poethoffrwm, a dyma ateb ei dad: **"Duw ei hun fydd yn darparu oen y poethoffrwm, fy mab"** (Gen.22:8). Doedd Abraham ddim yn gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd, ond roedd yn trystio Duw.

Disgwyl wrth Dduw

Peth peryglus iawn yw gwneud addewid i blentyn heb fwriadu neu heb fedru ei gadw. Mae'r plentyn yn disgwyl yn eiddgar ac mae'r siom o dorri addewid yn gallu bod yn ddinistriol iddo. Gwelwn y disgwyliad yma yng ngweddi Solomon wrth gysegru'r deml yn 2 Cronicl 6.16-17: **"cadw'r addewid a wnaethost i'th was Dafydd, fy nhad, pan ddywedaist wrtho, 'Gofalaf na fyddi heb ŵr i eistedd ar orsedd Israel…'"**

Dibynnu ar Dduw

Mae plant hefyd yn gwybod bod angen help arnynt. Maen nhw'n dibynnu ar eraill, yn arbennig rhieni, am lawer iawn o gymorth. Nid y nhw sydd yn talu biliau, gyrru'r car, trefnu'r morgais na dewis ysgol. Y mae'r un agwedd i'w gweld ym mhlant Duw tuag at eu tad nefol: **"Oherwydd nid ydym ni'n ddigon cryf i wrthsefyll y fintai fawr hon… Ni wyddom ni beth i'w wneud, ond dibynnwn arnat ti"** (Gweddi Jehosaffat yn wyneb ymosodiad gan fyddin o elynion - 2 Cronicl 20:12).